Home Office

# Y Swyddfa Gartref

# Canllawiau Penodol i'r Sector ar y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS): Elusennau a Chymdeithas Sifil

Ebrill 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/foreign-influence-registration-scheme

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn FIRS@homeoffice.gov.uk.

# Cynnwys


Rhestr termau allweddol 2

Ynglŷn â'r Canllawiau hyn 3

Adran 1: Trosolwg o'r gofynion 4

Adran 2: Enghreifftiau o drefniadau cofrestradwy ac anghofrestradwy 7

Haen Wleidyddol 7

Haen Uwch 8

Adran 3: Esemptiadau rhag cofrestru 9

Adran 4: Senarios cyffredin yn y sector elusennau lle gall cofrestru fod yn ofynnol (neu beidio) 10

Cyllid 10

Ymddiriedolwyr o bŵer tramor 11

Adran 5: Eithriadau i gyhoeddi 13

Diogelwch unigolion 13

Adran 6: Ar bwy y mae'r gofynion cofrestru yn disgyn a chyfrifoldebau cyflogeion ac isgontractwyr sy'n cyflawni gweithgareddau 15

# Rhestr termau allweddol

| | |
|---|---|
| **FIRS** | Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor. Y Cynllun a gyflwynwyd trwy Ran 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023. |
| **Trefniant** | Unrhyw fath o gytundeb, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Gallai hyn gynnwys contract, memorandwm dealltwriaeth (MOU) neu gytundeb neu drefniant anffurfiol quid pro quo. |
| **Pŵer tramor** | Mae ganddo'r ystyr a roddir gan Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn adran 1. |
| **Gweithgareddau dylanwad gwleidyddol** | Cyfathrebiad, cyfathrebiad cyhoeddus neu ddarpariaeth o arian, nwyddau neu wasanaethau gyda'r bwriad o ddylanwadu ar fater gwleidyddol. |
| **Pŵer tramor penodedig** | Pŵer tramor sydd wedi'i bennu trwy reoliadau o dan haen uwch FIRS. |
| **Gweithgaredd perthnasol** | Math o weithgaredd o fewn cwmpas cofrestru o dan haen uwch FIRS. |
| **Esemptiad rhag cofrestru** | Amgylchiad lle nad yw gofynion cofrestru yn berthnasol. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn adran 3. |
| **Eithriad i gyhoeddi** | mgylchiad lle na fydd gwybodaeth a gofrestrwyd o dan FIRS yn cael ei chyhoeddi. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn adran 5. |
| **Cofrestrai** | Person y mae'n ofynnol iddo gofrestru o dan FIRS. |
| **Hysbysiad gwybodaeth** | Hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu gwybodaeth bellach sy'n ymwneud â threfniadau neu weithgareddau y gellir eu cofrestru o dan FIRS. |

# Ynglŷn â'r Canllawiau hyn

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ychwanegol sy'n benodol i'r sector ar y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor ar gyfer elusennau a sefydliadau dielw eraill, fel sefydliadau anllywodraethol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar sut y gallai senarios ariannu fod o fewn cwmpas gofynion cofrestru a'r eithriad i gyhoeddi lle gallai diogelwch unigolyn gael ei beryglu.

Bwriad y ddogfen yw galluogi dealltwriaeth o sut mae gofynion y cynllun yn berthnasol yng nghyd-destun y sector. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ofynion y cynllun yn fwy cyffredinol yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol a'r canllawiau ar yr haen uwch. Cynhyrchwyd canllawiau ar wahân hefyd ar yr endidau a reolir gan bwerau tramor a bennir o dan yr haen uwch.

Bwriad y canllawiau hyn yw egluro gofynion allweddol cynllun FIRS, sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb y rhai sydd o fewn cwmpas y cynllun i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol eu hunain.

Mae gofynion FIRS yn bodoli ar wahân i'r rheolau ar ymgyrchu a gweithgaredd gwleidyddol mewn cyfraith elusennau. Mae'r Comisiwn Elusennau wedi cyhoeddi canllawiau ar ymgyrchu a gweithgarwch gwleidyddol ar gyfer elusennau. Nid yw cydymffurfio â chyfraith elusennau yn negyddu'r gofyniad i gydymffurfio â FIRS (ac i'r gwrthwyneb).

Mae'r Llywodraeth yn parhau i gydnabod y gwerth hanfodol y mae cymdeithas sifil yn ei gyfrannu at wella democratiaeth a gwerthoedd y DU a gwella bywydau pobl. Mae'r DU hefyd yn parhau i fod yn agored i ymgysylltu a chydweithredu tryloyw â phwerau tramor. Mae'r rhai sy'n cofrestru'n llawn ac yn gywir yn cefnogi gwydnwch y DU a'i sefydliadau yn wyneb bygythiadau gan wladwriaethau. Nid yw cofrestru trefniant neu weithgarwch ynddo'i hun yn golygu ei fod o reidrwydd yn anghyfreithlon neu'n annymunol. Nid yw FIRS yn atal unrhyw weithgarwch rhag digwydd; cyn belled â bod y trefniadau'n dryloyw, gall gweithgareddau cysylltiedig fynd rhagddynt fel arfer.

# Adran 1: Trosolwg o'r gofynion

1. Mae gofynion y cynllun wedi'u rhannu'n ddwy haen:
    - Yr **haen dylanwad gwleidyddol**, sy'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru trefniadau ag unrhyw bŵer tramor (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon) i gynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU;
    - Yr **haen uwch**, sy'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru trefniadau i gynnal set ehangach o weithgareddau, ond dim ond gyda'r pwerau tramor neu endidau a reolir gan bwerau tramor sydd wedi'u pennu mewn rheoliadau.

## Haen Dylanwad Gwleidyddol

2. Mae'n ofynnol i unigolion a sefydliadau (gan gynnwys elusennau) gofrestru o dan yr haen dylanwad gwleidyddol os cânt eu cyfarwyddo gan bŵer tramor i gynnal, neu drefnu i eraill gynnal, gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU.

3. Mae pŵer tramor yn unrhyw un o'r canlynol:
    a) pennaeth sofran neu bennaeth arall Gwladwriaeth dramor,
    b) llywodraeth dramor, neu ran o lywodraeth dramor (er enghraifft, gweinidogaeth neu adran llywodraeth dramor);
    c) asiantaeth neu awdurdod llywodraeth dramor, neu ran o lywodraeth dramor,
    d) awdurdod sy'n gyfrifol am weinyddu materion ardal o fewn gwlad neu diriogaeth dramor (er enghraifft, awdurdod llywodraeth leol mewn gwlad dramor);
    e) plaid wleidyddol sy'n blaid wleidyddol lywodraethol llywodraeth dramor.

4. Dim ond pan fo “cyfarwyddyd” gan bŵer tramor i weithredu y mae gofynion cofrestru yn berthnasol.

5. Mae gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cynnwys rhai gweithgareddau cyfathrebu, gweithgareddau cyfathrebu cyhoeddus neu ddarparu arian, nwyddau neu wasanaethau, lle bwriedir iddynt ddylanwadu ar unrhyw un o'r canlynol:
    - Etholiad neu refferendwm yn y DU;
    - Penderfyniad Gweinidog neu adran o'r Llywodraeth (gan gynnwys Gweinidog neu adran o'r Llywodraeth yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon);
    - Trafodion plaid wleidyddol gofrestredig yn y DU (megis eu hymrwymiadau maniffesto);
    - Aelod o Dŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban neu Senedd Cymru (wrth weithredu yn rhinwedd eu swydd fel y cyfryw).

6. Gallai gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yng nghyd-destun cymdeithas sifil gynnwys:

- Cyfarfod ag uwch was sifil i ddylanwadu ar ymateb Llywodraeth y DU i drychinebau tramor;
- Llythyr at Aelod Seneddol sy'n ceisio eu hannog i bleidleisio yn erbyn gwelliannau a gynigiwyd i ddarn o ddeddfwriaeth;
- Erthygl a gyhoeddwyd i gynulleidfa yn y DU yn cynnig newidiadau polisi i leihau tlodi plant yn y DU (lle nad yw'n cael ei gwneud yn glir bod yr erthygl hon wedi'i chyhoeddi ar gyfarwyddyd y pŵer tramor perthnasol)).

7. Rhaid cofrestru trefniadau o dan yr haen dylanwad gwleidyddol o fewn 28 diwrnod calendr i'r trefniant gael ei wneud. Gall gweithgareddau ddigwydd o fewn y ffenestr 28 diwrnod honno heb gofrestru ymlaen llaw.

8. Y gosb uchaf am fethu â chydymffurfio â gofynion yr haen dylanwad gwleidyddol yw 2 flynedd o garchar.

9. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ofynion yr haen hon yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol.

## Haen Uwch

10. Mae'n ofynnol i unigolion a sefydliadau gofrestru o dan yr haen uwch os cânt eu cyfarwyddo gan bŵer neu endid tramor penodedig i gynnal, neu drefnu i eraill gynnal, ystod ehangach o "weithgareddau perthnasol" yn y DU. Mae'n ofynnol hefyd i endidau penodedig a reolir gan bŵer tramor gofrestru unrhyw "weithgareddau perthnasol" y maent yn eu cyflawni eu hunain yn y DU.

11. Mae canllawiau ar wahân wedi'u cynhyrchu yn nodi'r pwerau tramor a'r endidau a reolir gan bŵer tramor a bennir o dan yr haen uwch. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn darparu rhagor o fanylion am y "gweithgareddau perthnasol" y mae angen eu cofrestru.

12. Dim ond lle mae "cyfarwyddyd" gan bŵer tramor penodedig, neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor, i weithredu y mae gofynion cofrestru yn berthnasol.

13. Gallai gweithgareddau "perthnasol" yng nghyd-destun cymdeithas sifil gynnwys:
    - Ymgyrchoedd codi arian a gynhelir ar gyfarwyddyd pŵer tramor penodol neu endid penodol a reolir gan bŵer tramor;
    - Cynnal digwyddiad yn y DU i godi ymwybyddiaeth o achos penodol, ar gyfarwyddyd pŵer tramor penodol neu endid penodol a reolir gan bŵer tramor;
    - Lledaenu negeseuon i gynulleidfa yn y DU ar gyfryngau cymdeithasol, ar gyfarwyddyd pŵer tramor penodol neu endid penodol a reolir gan bŵer tramor.

14. Mae cofrestru trefniadau o dan yr haen uwch yn ofynnol o fewn 10 diwrnod calendr i'r trefniant gael ei wneud, a chyn cynnal gweithgareddau. Mae'n drosedd cynnal

gweithgareddau perthnasol o dan drefniant cofrestradwy heb i'r trefniant gael ei gofrestru yn gyntaf.

15. Y gosb uchaf am fethu â chydymffurfio â gofynion yr haen uwch yw 5 mlynedd o garchar.

16. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ofynion yr haen hon yn y canllawiau ar yr haen uwch.

## Manylion pellach am ofynion cofrestru

17. O dan y ddwy haen, mae cofrestru yn ofynnol gan yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n gwneud y trefniant cofrestradwy gyda'r pŵer tramor, pŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor. Y trefniant y mae'n rhaid ei gofrestru, nid pob gweithgaredd unigol a fydd yn cael ei gynnal. Yn achos elusen mewn trefniant cofrestradwy, ymddiriedolwyr yr elusen sy'n gyfrifol ar y cyd am gofrestru. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn adran 6.

18. Dim ond pan gaiff ei gynnal yn y DU y gellir cofrestru gweithgarwch. O'r herwydd, ni fyddai angen cofrestru unrhyw weithgareddau a gynhelir dramor. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai angen i unigolyn neu sefydliad tramor gofrestru os ydynt yn cynnal gweithgareddau yn y DU, neu'n trefnu i weithgareddau gael eu cynnal yn y DU.

19. Mae cofrestru yn broses syml ac rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o gofrestreion yn cydymffurfio â'r gofynion trwy'r gwasanaeth cofrestru ar-lein FIRS pwrpasol.

## Gofynion pellach

20. Lle bo newid sylweddol i unrhyw wybodaeth a ddarperir wrth gofrestru, rhaid diweddaru'r wybodaeth o fewn 14 diwrnod calendr, gan ddechrau gyda'r diwrnod y daw'r newid i rym.

21. Mae'r cynllun hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth i'r rhai sydd wedi cofrestru, neu eraill y credir eu bod yn ymwneud â threfniadau neu weithgareddau cofrestradwy. Rhaid i dderbynwyr hysbysiadau gwybodaeth ymateb gyda'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr hysbysiad erbyn y dyddiad a bennir. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn y canllawiau ar hysbysiadau gwybodaeth.

# Adran 2: Enghreifftiau o drefniadau cofrestradwy ac anghofrestradwy

## Haen Wleidyddol

**Enghraifft 1 (angen cofrestru) (cyfathrebu):** Mae Llywodraeth Gwlad A yn ymwybodol bod Aelod o Dŷ'r Arglwyddi yn bwriadu cyflwyno Mesur Aelod Preifat (PMB) a fyddai'n cyfyngu ar faint o gymorth tramor y gellir ei ddarparu i wledydd sydd â hanes wael o ran hawliau dynol, gan gynnwys Gwlad A. Mae diplomydd o Wlad A yn cyfarfod ag ymddiriedolwr elusen, y mae ei dibenion yn lleddfu tlodi byd-eang, ac a oedd eisoes wedi mynegi pryder am y PMB, ac yn gofyn iddynt annog yr Aelod o Dŷ'r Arglwyddi i ollwng y PMB. Yn gyfnewid, mae'r diplomydd yn cynnig rhoddion sylweddol i'r elusen ac yn cynnig hyrwyddo eu gwaith trwy eu llysgenhadaeth yn y DU. Mae ymddiriedolwr yr elusen yn cyfarfod ag Aelod o Dŷ'r Arglwyddi ac yn cynnig ffyrdd eraill o sut y gellid cyflawni amcanion y PMB.

Mae'n ofynnol i'r **elusen** gofrestru. Maent mewn trefniant â Llywodraeth Gwlad A (**pŵer tramor**) lle mae buddion amodol i'w derbyn (**cyfarwyddyd**) os ydynt yn cyfathrebu ag Aelod o Dŷ'r Arglwyddi i ddylanwadu ar eu penderfyniad i gyflwyno PMB (**gweithgaredd dylanwad gwleidyddol**). Nid oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

**Enghraifft 2 (angen cofrestru):** Mae NGO sydd wedi'i leoli yng Ngwlad B yn derbyn cyllid gan Weinyddiaeth Materion Tramor Gwlad B ar gyfer prosiect ar hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd mewn addysg ledled Ewrop ac fel rhan o hyn, dywedir wrtho am eirioli dros newid polisi ar hyn yn y DU. Mae'r NGO yn penderfynu dyrannu 10% o'r cyllid hwn i elusen yn y DU fel y gall yr elusen yn y DU gynnal eiriolaeth ar y mater hwn gyda llywodraeth y DU. Mae'r elusen yn y DU yn defnyddio'r cyllid hwn i drefnu cyfarfodydd ag uwch weision sifil yn yr Adran Addysg ynghylch newidiadau arfaethedig i bolisi llywodraeth y DU.

Mae'n ofynnol i'r **NGO** gofrestru, gan ei fod wedi dod i gytundeb â Weinyddiaeth Materion Tramor Gwlad B (**pŵer tramor**), a bydd yn derbyn cyllid amodol (**cyfarwyddyd**) i drefnu i'r elusen sydd wedi'i lleoli yn y DU ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ddylanwadu ar bolisi (**gweithgaredd dylanwad gwleidyddol**). Nid oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

**Nid** oes angen i'r **elusen yn y DU** gofrestru, gan nad yw'r NGO yn **bŵer tramor**. Fodd bynnag, dylai'r elusen yn y DU wirio bod yr NGO wedi cofrestru cyn cynnal y gweithgareddau dylanwad gwleidyddol.

**Enghraifft 3 (nid oes angen cofrestru) (dim cyfarwyddyd gan bŵer tramor):** Mae Llywodraeth Gwlad C yn cynnal cynhadledd yn y DU i ddod â llunwyr polisi a diwydiant ynghyd i drafod sut i leihau tlodi plant ledled y byd. Mae'n gwahodd elusen i gyflwyno ar bwnc o'u dewis yn y gynhadledd, sy'n cael ei mynychu gan uwch weision sifil y DU a chynghorwyr arbennig. Mae'r elusen yn traddodi'r araith ac yn awgrymu mentrau polisi y gallai llywodraethau sy'n mynychu eu mabwysiadu i liniaru tlodi plant.

Nid oes angen i'r elusen gofrestru, gan nad yw wedi derbyn cyfarwyddyd gan bŵer tramor. Fodd bynnag, pe bai Llywodraeth Gwlad C wedi cyfarwyddo'r elusen i gyfleu neges benodol gyda'r bwriad o ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU, yna byddai'n ofynnol iddynt gofrestru.

## Haen Uwch

**Enghraifft 4 (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig):** Mae Llywodraeth Gwlad D wedi'i nodi o dan yr haen uwch, gyda'r holl weithgareddau'n ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae elusen yn y DU yn derbyn grant gan Lywodraeth Gwlad D sy'n gysylltiedig â hyrwyddo mwy o ddefnydd o ddŵr ar draws ysgolion. Maent yn sefydlu cyfres o fentrau mewn ysgolion yn y DU.

Mae'n ofynnol i'r **elusen yn y DU** gofrestru. Maent mewn **trefniant** gyda **phŵer tramor penodedig** ac wedi derbyn cyllid amodol sy'n gysylltiedig â chael eu gofyn (**cyfarwyddyd**) i hyrwyddo mwy o ddefnydd o ddŵr ar draws ysgolion (**gweithgareddau perthnasol**). Nid oes unrhyw eithriadau'n berthnasol.

**Enghraifft 5 (nid oes angen cofrestru) (gweithgareddau sy'n digwydd yn annibynnol ar y pŵer tramor penodedig neu unrhyw endid penodedig a reolir gan bŵer tramor):** Mae Llywodraeth Gwlad E wedi'i nodi o dan yr haen uwch, gyda phob gweithgaredd yn ffurfio "gweithgareddau perthnasol". Mae elusen lleddfu tlodi sydd wedi'i lleoli yng Ngwlad E yn derbyn cyllid rheolaidd gan Lywodraeth Gwlad E, fodd bynnag nid yw'r Llywodraeth yn nodi sut y dylid defnyddio'r cyllid. Mae elusen plant yn y DU yn gwneud trefniant gyda'r elusen lleddfu tlodi o Wlad E i ddarparu brecwast i blant y DU.

Nid oes angen i'r naill elusen na'r llall gofrestru.

Nid oes angen i **elusen plant y DU** gofrestru gan fod eu trefniant gydag elusen arall ac nid gydag elusen dramor benodol neu endid a reolir gan bŵer tramor. Nid oes angen i'r **elusen lleddfu tlodi o Wlad E** gofrestru oherwydd, er eu bod yn derbyn rhywfaint o gyllid gan bŵer tramor penodol, nid ydynt yn cael eu cyfarwyddo i ddefnyddio'r cyllid i gynnal gweithgareddau yn y DU.

# Adran 3: Esemptiadau rhag cofrestru

22. Mae eithriadau rhag cofrestru yn berthnasol i:
    - Trefniadau corff coron y DU (y ddwy haen);
    - Pwerau tramor yn gweithredu'n agored (y ddwy haen);
    - Aelodau o'r teulu diplomyddol (y ddwy haen);
    - Gweithgareddau cyfreithiol a gyflawnir gan gyfreithiwr (y ddwy haen);
    - Cyhoeddwyr newyddion cydnabyddedig (haen dylanwad gwleidyddol yn unig);
    - Cronfeydd cyfoeth sofran sy'n cyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â buddsoddi (haen dylanwad gwleidyddol yn unig);
    - Gweithgareddau sy'n rhesymol angenrheidiol i gefnogi cenadaethau diplomyddol (haen uwch yn unig);
    - Trefniadau corff cyhoeddus y DU (haen uwch yn unig);
    - Ysgoloriaethau a darparwyr addysg (haen uwch yn unig);
    - Prosesau gweinyddol y llywodraeth (haen uwch yn unig)).

23. Yn ogystal â'r esemptiadau hyn, ni fyddai angen cofrestru unrhyw weithgareddau cyfathrebu cyhoeddus, - er enghraifft erthygl ar wefan - lle mae'n rhesymol glir bod y gweithgaredd wedi'i wneud ar gyfarwyddyd pŵer tramor o dan yr haen dylanwad gwleidyddol, oherwydd na fyddent yn bodloni'r diffiniad o "weithgaredd dylanwad gwleidyddol". Felly, ni fyddai angen cofrestru unrhyw erthygl gyhoeddedig a fwriadwyd i ddylanwadu ar broses wleidyddol o dan yr haen dylanwad gwleidyddol, pe bai'n glir ar yr erthygl ei bod wedi'i chwblhau fel rhan o drefniant gyda phŵer tramor. Gallai fod angen cofrestru o hyd o dan yr haen uwch, os caiff ei wneud ar gyfarwyddyd pŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor.

24. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am yr holl eithriadau yn y [canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol] neu'r [canllawiau ar yr haen uwch].

# Adran 4: Senarios cyffredin yn y sector elusennau lle gall (neu na all) fod angen cofrestru

## Cyllid

25. Dim ond pan fo “cyfarwyddyd” i gynnal gweithgareddau penodol yn y DU y mae angen cofrestru. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am yr hyn sy’n gyfystyr â ‘chyfarwyddyd’ yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol a’r canllawiau ar yr haen uwch.

26. Er nad yw cyllid gan bŵer tramor, ynddo’i hun, yn gyfystyr â chyfarwyddyd, gall ffurfio rhan o gyfarwyddyd os oes amodau ynghlwm wrtho i’w ddefnyddio mewn ffordd benodol.

27. Ni ystyrir bod rhoddion cyffredinol a grantiau anghyfyngedig sy’n rhoi’r ymreolaeth i’r elusen sy’n ei derbyn i ddefnyddio’r cyllid yn y ffordd y maent yn ei gweld yn briodol yn gyfarwyddyd. Pan fydd elusen yn gwneud cais am fath o gyllid (er enghraifft, grant neu rodd) gan bŵer tramor, a bod y cyllid hwnnw’n cael ei ddarparu heb osod amodau penodol ar ei ddefnydd, ni fyddai hyn ynddo’i hun yn gyfystyr â chyfarwyddyd. Byddai hyn yn wir hyd yn oed pe bai’r cyllid yn cael ei geisio mewn perthynas â phrosiect penodol iawn gan mai’r elusen ac nid y pŵer tramor sy’n gwneud y penderfyniad i gyfyngu ar ddefnydd y cronfeydd.

28. Yn yr un modd, os darperir cyllid gan bŵer tramor i gefnogi prosiect neu fenter sy'n digwydd beth bynnag, ac nad yw'r cyllid hwnnw'n dylanwadu ar sut mae'r prosiect neu'r fenter yn cael ei chynnal gan yr elusen, nid yw hynny'n gyfystyr â chyfarwyddyd.

**Enghraifft 6 (angen cofrestru) (haen dylanwad gwleidyddol):** Mae elusen cymorth trychineb sydd â'i phencadlys yng Ngwlad F yn ymrwymo i gytundeb grant â Gweinyddiaeth Materion Tramor Gwlad F. Fel rhan o'r cytundeb grant hwn, rhoddir arian i'r elusen a'i thasg yw defnyddio hwn i lobïo Llywodraeth y DU i gynyddu faint o gymorth y mae'n ei darparu i Wlad F, yn dilyn daeargryn difrifol yn y wlad. Mae'r elusen yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Tramor y DU ynglŷn â chynyddu cymorth lleddfu effeithiau trychineb y DU yng Ngwlad F ac yn trefnu rhai cyfarfodydd wyneb yn wyneb i drafod.

Mae'n ofynnol i'r **elusen** gofrestru. Maent mewn trefniant â Gweinyddiaeth Materion Tramor Gwlad F (**pŵer tramor**), lle maent wedi derbyn arian gydag amodau ynghlwm (**cyfarwyddyd**) i lobïo Llywodraeth y DU i gynyddu faint o gefnogaeth a ddarperir i Wlad F (**gweithgarwch dylanwad gwleidyddol**). Nid oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

**Enghraifft 7 (nid oes angen cofrestru) (haen dylanwad gwleidyddol):** Mae NGO sydd wedi'i leoli yng Ngwlad G yn derbyn cyllid rheolaidd gan Weinyddiaeth Materion Tramor Gwlad G i godi ymwybyddiaeth am wahaniaethu sy'n effeithio ar ddinasyddion y wlad. Ni roddir unrhyw amodau pellach ynghylch defnyddio'r cyllid. Mae'r NGO yn defnyddio'r cyllid i lansio digwyddiad y mae'n gwahodd seneddwyr y DU iddo ac yn ceisio eu perswadio i gyflwyno deddfwriaeth gyda chosbau llymach i'r rhai sy'n cyflawni cam-drin hiliol yn erbyn dinasyddion y wlad yn y DU.

**Nid** oes angen i'r NGO gofrestru. Er eu bod yn cynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU, nid ydynt yn cael eu cyfarwyddo i wneud hynny gan bŵer tramor. Mae hyn oherwydd nad yw'r cyllid a ddarperir gan y pŵer tramor yn dod ag amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU.

**Enghraifft 8 (nid oes angen cofrestru) (haen dylanwad gwleidyddol):** Mae elusen sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am gyflyrau iechyd meddwl yn gwneud cais am grant gan Weinyddiaeth Iechyd Gwlad H, gan ddatgan y bydd yn defnyddio'r cyllid i lobïo gwleidyddion y DU ynghylch yr angen am fwy o amddiffyniadau mewn cyfraith cyflogaeth i'r rhai sy'n dioddef o gyflwr penodol. Mae Gweinyddiaeth Iechyd Gwlad H yn cymeradwyo'r cais am grant, gan ddarparu cyllid i'w ddefnyddio yn unol â'r telerau a nodir gan yr elusen. Yna mae'r elusen yn cynnal digwyddiad, y mae'n gwahodd nifer o ASau iddo, ac yn nodi'r problemau gyda'r amddiffyniadau cyfreithiol presennol ac yn cynnig ffyrdd o'u cryfhau.

**Nid** oes angen i'r elusen gofrestru. Er eu bod yn cynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol gan ddefnyddio cyllid gan bŵer tramor, nid yw'r cyllid wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'r gweithgareddau wedi'u cynnal, sydd er budd yr elusen ei hun.

Ni fyddai'n ofynnol i'r elusen gofrestru chwaith hyd yn oed pe bai'r cyllid yn dod o bŵer tramor penodol. Mae hyn oherwydd nad yw'r cyllid wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'r gweithgareddau wedi'u cynnal.

## Ymddiriedolwyr o bŵer tramor

29. Os yw ymddiriedolwr elusen yn bŵer tramor (er enghraifft, diplomydd tramor yn y DU), nid yw hyn, ynddo'i hun, yn gwneud yr elusen yn bŵer tramor nac yn sbarduno gofyniad i gofrestru.

30. Fodd bynnag, byddai angen i elusen gofrestru os cânt eu cyfarwyddo gan bŵer tramor trwy'r ymddiriedolwr hwnnw i gynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU.

31. Os yw diplomydd tramor yn ymddiriedolwr elusen mewn swyddogaeth gwbl ar wahân i'w rôl fel pŵer tramor, a lle nad oes unrhyw gyfarwyddyd gan bŵer tramor,

nid yw hyn yn gyfystyr â threfniant gyda phŵer tramor felly ni fyddai angen cofrestru.

**Enghraifft 9a (angen cofrestru):** Mae diplomydd tramor o Wlad I yn ymddiriedolwr elusen yn y DU, sy'n canolbwyntio ar gefnogi dioddefwyr cyflwr meddygol penodol. Mae llysgenhadaeth Gwlad I yn y DU, gan fanteisio ar rôl y diplomydd yn yr elusen, yn cyfarwyddo'r elusen i lobïo Llywodraeth y DU i gynyddu cyllid ymchwil i'r cyflwr meddygol. Yna mae'r elusen yn cysylltu â Gweinidog yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan amlinellu'r bylchau ymchwil presennol ac awgrymu sut y gellid eu llenwi â chyllid Llywodraeth y DU.

Mae'n ofynnol i'r elusen gofrestru. Maent mewn trefniant gyda diplomydd tramor (**pŵer tramor**) i gyfathrebu â gweinidog Llywodraeth y DU i ddylanwadu ar benderfyniadau ar wariant Llywodraeth y DU (**gweithgareddau dylanwad gwleidyddol**).

**Enghraifft 9b (nid oes angen cofrestru):** Mae diplomydd tramor o Wlad I yn ymddiriedolwr elusen yn y DU, sy'n canolbwyntio ar gefnogi dioddefwyr cyflwr meddygol penodol. Mae cyfranogiad y diplomydd tramor yn yr elusen wedi'i ysgogi gan ei brofiad personol ei hun o'r cyflwr meddygol ac nid yw'n gysylltiedig â'i rôl fel diplomydd. Mae'r ymddiriedolwr diplomydd yn cyfarwyddo'r elusen i gysylltu â Gweinidog yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan amlinellu bylchau ymchwil cyfredol yn y cyflwr ac awgrymu sut y gellid eu llenwi â chyllid Llywodraeth y DU.

**Nid** oes angen i'r elusen gofrestru. Er eu bod mewn trefniant gyda diplomydd tramor ac yn cynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol, nid yw'r diplomydd yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel pŵer tramor ond yn hytrach mewn rôl gwbl ar wahân.

# Adran 5: Eithriadau i gyhoeddi

32. Bydd gwybodaeth benodol a gofrestrwyd sy'n ymwneud â threfniadau i gynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cael ei chynnwys ar gofrestr gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys trefniadau a gofrestrwyd o dan yr haen dylanwad gwleidyddol, yn ogystal ag unrhyw drefniadau a gofrestrwyd o dan yr haen uwch sy'n ymwneud â chynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol. Ni fydd cofrestriadau eraill o dan yr haen uwch yn cael eu cyhoeddi.

33. Ni chyhoeddir yr holl wybodaeth a ddarperir wrth gofrestru. Gweler y canllawiau ar y wybodaeth sy'n ofynnol wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus am ragor o fanylion.

34. Mae eithriadau i gyhoeddi yn berthnasol yn y senarios canlynol:
    - Lle mae risg y byddai cyhoeddi yn niweidio diogelwch neu fuddiannau'r DU.
    - Lle mae risg y byddai cyhoeddi yn niweidio atal neu ganfod troseddau, ymchwiliad troseddol neu achosion troseddol;
    - Lle mae risg sylweddol y byddai cyhoeddi yn peryglu diogelwch unrhyw unigolyn yn ddifrifol.
    - Lle byddai cyhoeddi yn golygu datgelu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol.

35. Gall eithriadau i gyhoeddi fod yn berthnasol i gofrestriad gyfan (sy'n golygu nad oes unrhyw fanylion yn cael eu cyhoeddi) neu i wybodaeth benodol yn unig o fewn cofrestriad (sy'n golygu bod y cofrestriad yn cael ei gyhoeddi ond gyda'r wybodaeth honno wedi'i golygu).
36. Bydd cofrestreion sy'n credu bod eithriad i gyhoeddi yn berthnasol yn cael cyfle i ddarparu tystiolaeth i arddangos bod yr eithriad yn berthnasol ar ddiwedd y broses gofrestru.
37. Yr eithriad sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol yng nghyd-destun cymdeithas sifil yw'r eithriad ar gyfer lle byddai cyhoeddi yn peryglu diogelwch unigolyn yn ddifrifol. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am yr eithriadau eraill i gyhoeddi yn y canllawiau ar y wybodaeth sy'n ofynnol wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus.

## Diogelwch unigolion

38. Gallai’r eithriad hwn fod yn berthnasol, yn benodol, i'r rhai sy'n ymgyrchu ar faterion hawliau dynol, lle gallen nhw, eu teuluoedd neu eu cydweithwyr gael eu rhoi mewn perygl yn eu mamwlad o ganlyniad i ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus, neu lle gallai cyhoeddi arwain at fygythiad marwolaeth neu fygythiad o anaf sy'n peryglu bywyd. Gall rhai risgiau iechyd meddwl gyrraedd trothwy niwed difrifol, er enghraifft, lle gallai cyhoeddi arwain at orfodaeth, aflonyddu neu stelcio.

39. Mae'r eithriad yn berthnasol lle mae'r risg o niwed yn berthnasol i unrhyw unigolyn - mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y cofrestrai, unrhyw unigolion

eraill a enwir yn y gofrestr, neu eu teulu, ffrindiau neu gydweithwyr. Gall hyn gynnwys bygythiad i bobl dramor.

40. Dylai tystiolaeth i gefnogi'r eithriad hwn, lle bo modd, gynnwys tystiolaeth o risg i unigolyn a enwir. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall tystiolaeth o risgiau i grŵp penodol yn deillio o weithgareddau tebyg yn y gorffennol fod yn dystiolaeth gefnogol dderbyniol.

41. Gallai tystiolaeth dderbyniol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y canlynol:
    - rhif digwyddiad yr heddlu os yw ymosodiad blaenorol wedi digwydd;
    - tystiolaeth ddogfennol o fygythiad neu ymosodiad, fel lluniau neu recordiadau;
    - enghreifftiau o amgylchiadau lle mae unigolion sy'n perthyn i'r un grŵp neu sy'n cyflawni gweithgareddau tebyg wedi bod yn destun risgiau diogelwch personol (gallai hyn gynnwys adroddiadau newyddion am yr amgylchiadau hyn);
    - tystiolaeth o gyflogaeth mewn sefydliad (er enghraifft, sefydliad hawliau dynol) sy'n rhoi unigolyn mewn perygl penodol;
    - tystiolaeth o feddu ar nodwedd benodol neu berthyn i grŵp penodol (er enghraifft, grŵp crefyddol) sy'n eich rhoi chi mewn perygl penodol.

42. Mae'n bosibl y gellid defnyddio esboniadau yn unig, heb dystiolaeth ddogfennol, i ddangos bod yr eithriad hwn yn berthnasol. Fodd bynnag, byddai angen i'r esboniad ddarparu digon o fanylion i ddangos lefel y risg, y person neu'r mathau o berson a fyddai'n cael eu rhoi mewn perygl, natur y niwed a allai gael ei achosi a pham y gallai cyhoeddi arwain at y niwed hwn.

43. Ni fydd risgiau sydd o natur hollol ddamcaniaethol heb dystiolaeth i'w cefnogi yn bodloni'r trothwy i'r eithriad hwn fod yn berthnasol. Er enghraifft, ni fyddai risg ddamcaniaethol y gallai adnabod unigolyn drwy'r gofrestr gyhoeddus arwain at iddynt fod yn destun aflonyddu yn ddigonol, pe na bai unrhyw dystiolaeth o aflonyddu'n digwydd i'r unigolyn hwnnw, unigolion sy'n perthyn i'r un grŵp, neu unigolion sy'n cyflawni gweithgareddau tebyg wedi'i nodi.

# Adran 6: Ar bwy y mae'r gofynion cofrestru yn disgyn a chyfrifoldebau cyflogeion ac isgontractwyr sy'n cyflawni gweithgareddau

44. Lle mae'r amodau ar gyfer cofrestru o dan y naill haen neu'r llall o FIRS yn cael eu bodloni, yr unigolyn neu'r sefydliad sydd yn y trefniant gyda'r pŵer tramor (haen dylanwad gwleidyddol) neu bŵer neu endid tramor penodedig (haen uwch) sy'n ofynnol iddo gofrestru (y cyfeirir ato fel "P" yn y ddeddfwriaeth).

45. Yn achos elusen mewn trefniant cofrestradwy, mae ymddiriedolwyr yr elusen yn gyfrifol ar y cyd am gofrestru.

46. Nid oes rhaid i unigolion eraill (er enghraifft, asiantau neu wirfoddolwyr) neu sefydliadau (er enghraifft, elusennau lleol o fewn ffederasiwn) sy'n ymwneud â chynnal y gweithgareddau o dan drefniant cofrestradwy gofrestru, ond dylent wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru cyn cynnal y gweithgareddau. Dylid gwneud hyn trwy ofyn am gadarnhad swyddogol o'r cofrestriad gan y cofrestrai, y gellir ei wirio wedyn trwy'r tîm rheoli achosion neu'r gwasanaeth cofrestru ar-lein.

47. Mae mesurau diogelwch yn y ddeddfwriaeth i amddiffyn unigolion nad oes ganddynt unrhyw ffordd o wybod eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy. Er enghraifft, ni fyddai gan unigolion sy'n gweithredu er budd elusen, heb wybod bod pŵer tramor neu bŵer neu endid tramor penodedig wedi cyfarwyddo'r gweithgareddau, unrhyw reswm i wybod eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy. Mae yna ddiogelwch tebyg hefyd lle mae'r person wedi cymryd pob cam rhesymol sydd ar gael iddynt i wirio a yw'r trefniant wedi'i gofrestru ai peidio ac yn credu ei fod wedi'i gofrestru (gweler adran 67 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023). Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol wrth gofrestru (fel y darperir ar ei chyfer mewn rheoliadau) wedi'i nodi ar y canllawiau ar y wybodaeth sy'n ofynnol wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus.

48. Yn achos elusen â strwythur ffederal sydd mewn trefniant cofrestradwy, mae cofrestru'n ofynnol gan y rhan o'r elusen sy'n rhan uniongyrchol o'r trefniant cofrestradwy. Er enghraifft, lle mae sefydliad canolog yn y trefniant cofrestradwy, ond bod gweithgareddau'n cael eu cynnal gan elusen leol, y sefydliad canolog sy'n gyfrifol am gofrestru'r trefniant. Dylai'r elusen leol wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru cyn cynnal gweithgareddau.

**Astudiaeth achos 1 (haen dylanwad gwleidyddol):** Mae elusen yn y DU sy'n canolbwyntio ar newid hinsawdd yn ffurfio trefniant gyda Gweinyddiaeth Materion Amgylcheddol Gwlad B i lobïo Seneddwyr y DU i gyflwyno gwaharddiad ar werthu cerbydau petrol a diesel newydd. Yna mae'r elusen yn trefnu ymgyrch, gan annog ei rhoddwyr i ysgrifennu at eu AS i gyflwyno'r achos dros gyflwyno'r gwaharddiad. Nid yw'r elusen yn hysbysu'r rhoddwyr am y trefniant cofrestradwy ac, o ystyried bod yr ymgyrch er budd yr elusen ei hun yn hytrach nag yn bennaf er budd pŵer tramor, nid oes unrhyw arwydd ychwaith bod pŵer tramor wedi cyfarwyddo'r ymgyrch.

Mae'n ofynnol i'r **elusen yn y DU** gofrestru (ac mae ymddiriedolwyr yr elusen yn gyfrifol ar y cyd am hyn).

Nid oes rhaid i'r rhoddwyr gofrestru. Nid oes ganddynt unrhyw ffordd o wybod eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy, felly nid oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau i gydymffurfio â FIRS.

**Astudiaeth achos 2 (haen uwch):** Mae elusen yn y DU wedi’i ffurfio o ffederasiwn canolog a nifer o elusennau lleol eraill. Mae'r ffederasiwn canolog yn ffurfio trefniant gyda llysgenhadaeth Gwlad X yn y DU, sydd wedi'i bennu o dan yr haen uwch, i godi ymwybyddiaeth o fanteision addysgu celf a cherddoriaeth mewn ysgolion yn y DU. Yna mae'r ffederasiwn yn darparu cyllid i'r elusennau lleol i gysylltu â nifer o ysgolion yn y DU gyda deunyddiau i gynorthwyo i addysgu'r pynciau hyn, ac yn rhoi manylion iddynt am y trefniant gyda llysgenhadaeth Gwlad X yn y DU.

Mae'n ofynnol i'r **ffederasiwn canolog** gofrestru (ac mae ymddiriedolwyr y ffederasiwn hwn yn gyfrifol ar y cyd am hyn).

Nid oes rhaid i'r elusennau lleol gofrestru. Fodd bynnag, o ystyried eu bod yn ymwybodol eu bod yn gweithredu o dan drefniant cofrestradwy, dylent wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru cyn cysylltu ag unrhyw ysgolion.